# Cymeriadau Difyr




| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Odrifau ac Eilrifau**<br>(Hyd at 10) |
| Adnoddau: | • Llyfr darllen 'Cymeriadau Difyr: Odrifau ac Eilrifau'.<br>• Numicons.<br>• Sach o rifau hyd at 10.<br>• Dis (rhifau hyd at 10).<br>• Blociau bach, e.e. lego/unifix/duplo.<br>• Blociau mawr – ardal allanol.<br>• Cerbydau/teganau/tedis.<br>• Sanau, pegiau a lein ddillad.<br><br>**Adnoddau digidol:**<br>• Cyflwyniad digidol – *gweler y ddogfen 'Odrifau ac Eilrifau – cyflwyniad'*.<br>• Llinell rif ddigidol: https://cymeriadau-difyr-gemau.peniarth.cymru/ |
| Camau: | **Cam 1: Cyflwyniad**<br>Fel cyflwyniad, byddai'n addas darllen y llyfr 'Cymeriadau Difyr: Odrifau ac Eilrifau'.<br>Edrych ar bob un o rhifau 'Cymeriadau Difyr' mewn rhes a gosod y numicon cywir o dan bob rhif.<br>Trafod beth sy'n debyg ac yn wahanol rhwng y rhifau.<br>(Trafod y ffaith fod un darn 'unig' gyda'r odrifau)<br>Tynnu sylw at y ffaith fod gan bob rhan o'r numicon mewn rhifau eilrif bartner.<br><br>Gosod y dysgwyr mewn grwpiau o hyd at 10. Cyfrif sawl un sydd yno. Gofyn iddynt sefyll gyda phartner o fewn y grŵp. Os nad oes partner i bob dysgwr, mae'n odrif ayyb.<br><br>**Cam 2: Cyflwyniad digidol**<br>Cadarnhau'r uchod drwy ddefnyddio'r cyflwyniad digidol – gweler y ddogfen *'Odrifau ac Eilrifau – cyflwyniad'*.<br><br>**Cam 3: Gweithgaredd blociau**<br>Creu tyrrau i gyd-fynd â'r numicon – e.e. 6 yw dau dŵr o 3. Os nad oes partner gyda phob rhan o'r tŵr, h.y. mae un darn yn sefyll yn dal ar ben ei hun, yna mae'n odrif. |






| | |
|---|---|
| | **<u>Cam 4: Gwaith grŵp</u>**<br>Pawb yn sefyll mewn cylch. Un dysgwr yn tynnu numicon allan o sach. Os yw'n odrif, rhaid ymestyn i'r awyr yn dal, os mae'n eilrif rhaid eistedd ar y llawr. Yr un cyntaf i wneud y siâp cywir sydd yn tynnu'r numicon nesaf.<br><br>**<u>Cam 5: Didoli</u>**<br>Didoli numicons i ddau hŵp – odrif ac eilrif.<br>Gellid paru pob numicon gyda charden fflach o'r rhif cywir hefyd.<br><br>**<u>Cam 6: Didoli cerbydau/teganau/tedis</u>**<br>Rholio'r dis. Cyfrif y smotiau.<br>Dewis y nifer hwnnw o gerbydau a'u gosod mewn parau. Os oes un dros ben, mae'n odrif.<br><br>**<u>Cam 7: Hongian sanau ar y lein ddillad</u>**<br>Tynnu rhif allan o sach.<br>Hongian y sanau mewn parau hyd nes bod y nifer cywir yno. Os oes un heb bartner, mae'n odrif.<br><br>**<u>Cam 8: Mynd am dro</u>**<br>Mynd ar daith o gwmpas yr ysgol yn chwilio am rifau. Trafod os yw'r rhifau hynny'n odrif neu'n eilrif.<br><br>**<u>Cam 9: Ardal allanol - blociau mawr</u>**<br>Creu tyrrau i gyd-fynd â'r numicon – e.e. 6 yw dau dŵr o 3. Os nad oes partner gyda phob rhan o'r tŵr, h.y. mae un darn yn sefyll yn dal ar ben ei hun, yna mae'n odrif. |
| Cwestiynu: | • Ydy'r rhif/numicon hwn yn odrif neu'n eilrif?<br>• Fedri di greu tŵr i ddangos y rhif hwn? |
| Beth nesaf? | Astudio odrifau ac eilrifau hyd at 20. |



Peniarth .cymru

adnodd yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru supporting the Curriculum for Wales